

# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 233

Pris £1

Mis Ebrill 2021



gan Myrna Roberts

# ‘Over and Above’

Beth amser yn ôl gofynnodd y Cynulliad i awdurdodau addysg am enwau unrhyw staff a oedd wedi mynd ‘over and above’ yn ystod y cyfnod clo. Cafodd enw Su Allen ei roi ymlaen gan rieni'r teuluoedd a dderbyniodd ei chymorth, ac mae Su bellach wedi derbyn cydnabyddiaeth gan y Cynulliad.



Un o Senghennydd yw Su sydd wedi bod yn gweithio yn Ysgol Gymraeg Caerffili ers 17 o flynyddoedd. Treuliodd ei dyddiau cynnar yn ddisgybl yn Ysgol Ifor Bach ac yna yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae'r teulu nawr yn byw yng Nghaerffili lle magwyd eu plant, Alexandra a Bethan Allen. Disgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili oedd y ddwy a thra roedd Su yn gollwng y plant yn yr ysgol, daeth cyfle i weithio fel cynorthwydd dosbarth.

Yn ystod ei gyrfa yn Ysgol Gymraeg Caerffili, daeth yn gyfrifol am iechyd a lles disgyblion ynghyd â chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Buodd yn ‘ffrind’ ac yn ‘glust’ i nifer o ddisgyblion bregus wrth iddynt wynebu galar a cholled ynghyd â bod yn athrawes gynorthwyol i blant sydd angen help wrth ddysgu darllen.

Mae ei natur ofalgar ynghyd â'i gallu meddygol wedi sicrhau mai hi yw'r dewis cyntaf ar gyfer unrhyw dripiâu preswyl, yn cefnogi athrawon ac yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y gofal gorau posibl pan maent oddi cartref. Ac yn mwynhau'r holl weithgareddau allgyrsiol - wrth gwrs!

Yn ddiweddar, mae hi wedi ennill ei chymwysterau THRIVE ac ELSA (*Emotional Language Support Assistant*) er mwyn cefnogi disgyblion â phroblemau emosiynol a diffyg sgiliau cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod clo, sylweddolodd y byddai'r teuluoedd yma yn gorfod brwydro â'r sefyllfa, felly penderfynodd gysylltu â'r teuluoedd a threfnu galwadau ‘o bell’ er mwyn ‘tsiecio’ mewn â nhw. Buodd yn gyfrifol am ddosbarthu “Llyfrau Crôm” (*Chromebooks*) i gartrefi heb dechnoleg ac yna gwnaeth alwadau personol gyda phlant a oedd â phroblemau mynychu'r ysgol. Buodd hefyd yn dechnegydd yn cynorthwyo rhieni i logio 'mlaen i *Google Classroom* ac yn dangos iddynt ble y gellid dod o hyd i'r gwaith a osodwyd.



Suzanne ac Aaron yn cyfnewid ‘high fives’

Meddai Suzanne am ei gwaith gyda phlant ag anawsterau, “Mae'r plant rydw i'n gweithio gyda nhw yn dibynnu'n llwyr ar eu trefn reolaidd a phan gyhoeddwyd y clo lawr cyntaf, taflwyd eu byd i helbul llwyr. Cymer amser i Aaron, er enghraifft, adeiladu ymddiriedaeth. Penderfynais y bydden i'n gwneud popeth a allwn i sicrhau fod Aaron yn cael yr holl gefnogaeth roedd arno ei angen. Mae'n dwlu ar y pump uchel (*high five*) a dyna yw ei ffordd o gyfathrebu, felly dechreuais fynd i'w gartref bob bore Llun gan sefyll y tu allan i'r ffenest lle gallwn ni wneud y pump uchel drwy'r ffenest.

Parhaodd Suzanne i ymweld ag Aaron drwy gydol gwyliau'r Haf. Meddai, “Pan ddaeth yn ôl i'r ysgol wedi'r gwyliau, gwnes i gyfarfod Aaron wrth gatiau'r ysgol oherwydd gwyddwn y byddai'n nerfus oherwydd y newid. Ond roedd yn awyddus i ddychwelyd i'r ysgol.” Mae Su'n cyfarfod ag Aaron wrth y gatiau bob bore ers hynny.

Does dim byd ond clod gan rieni'r ysgol i ymroddiad Suzanne. Dywedodd Rhianon Elliot, mam Aaron, fod Suzanne yn berson anhunanol, caredig sydd wedi gwneud y byd o wahaniaeth i Aaron.

Dywed Gwyn a Rebecca Leeds, sydd hefyd â phlant yn yr ysgol, “Mae gan ein dau blentyn ieuengaf anghenion ychwanegol. Cawsom anawsterau ymdopi ag addysgu yn y cartref ond teilwrodd Mrs Allen gefnogaeth unigol amhrisiadwy drwy ymweld â'n cartref bob wythnos gan ein cyfarch o bellter cymdeithasol.”

“Mae ein plant yn edrych ymlaen at ei hymweliadau – dyna sy'n eu cadw i fynd. Cawn ni sicrwydd yn ystod yr amser anodd hyn bod ein merch ifancaf yn gallu dibynnu ar Mrs Allen i'w chefnogi pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol.

Karen Griffiths

# Y Gadwyn

Yn ardal Gelligaer  
yn hen gantref Senghennydd  
mae olion cadwyn hanes.

O fieri anghofrwydd  
fe dynnwyd un  
Llywelyn Bren,  
y llyfrbryf hunanaberthol.  
Sgwriwyd oddi arni  
rwd yr oesoedd.

Gwelir yn ei sglein  
yr egwyddorion oesol  
i dorchu llewys  
i beidio ildio  
i ddiwylliant estron.

*Dafydd Islwyn*

## Mwy o Dribannau a Cherddi Eraill am ein Hardal

Pan fydd Caerffili'n llawen,  
Heb falais na chenfigen,  
Fe fydd y mêl yn tarddu o'r cwar  
A'r ffigys ar y ddraenen.

Trot, trot i Gaerffili  
I nôl pwn o lestri Chini;  
Trot, trot i Gaerdydd  
I nôl pwn o lestri pridd.

Ei chaws bras yw achos bri – a'i chaws  
Daw a chysur iddi  
Y caws hyn yw'n henllyn  
Ffolwn ar gaws Caerffili.

Yn byw yn nhref Caerffili  
Mae merch o'r enw Mari;  
O dan fy nwyfron erys clwyf  
Nes caffwyf ei phriodi.

Shinci Sion o'r Hengoed  
Aeth i foddi cath  
Mewn cwd o lian newydd  
Nad oedd e damed gwaeth;  
Y cwd a aeth 'da'r afon,  
A'r gath a ddaeth i'r lan  
A Shincin Sion o'r Hengoed  
Gas golled yn y fan.

Ar y ffordd wrth fynd i Rymni  
*Very-well-a-done, Jim Cro,*  
Cwrddyd wnes â dyn a mwnci,  
*Very-well-a-done, Jim Cro,*  
Yn dod adre yn lled anhwylus,  
*Very-well-a-done, Jim Cro,*  
Wedi wado naw o Badis,  
Victoria, Victoria,  
*Very-well-a-done, Jim Cro,*

*O.M. Edwards, Yr Hwiangerddi (1911)*

*Phyllis Kinney a Meredydd Evans  
Canu'r Cymry II (1987)*

***Ein diolch i'r Athro Wyn James am ein tywys drwy'r farddoniaeth hyn yn ystod ei ddosbarth Llenyddia***





## Camlas Morgannwg

Mae'r A470 yn rhan o fywyd pawb yn ardal "Cwmni": boed yn ffordd i'r gwaith, i siopa, i'r gogledd pell neu i'r Bannau. Pa mor bwysig bynnag ni'n ystyried yr A470 heddiw mae ffordd lawer mwy arloesol wedi'i chuddio o dan ei amdo o goncrit rhwng Caerdydd a Merthyr. Llofrudd ein gorffennol oedd 60au a 70au'r hen ganrif, ac

felly y bu yn yr achos hwn hefyd. Datblygodd Merthyr ac Aberdâr eu diwydiannau haearn ddegawdau cyn dyfodiad rheilffyrdd a'r galw am byllau glo anferth y C19eg. Yn ystod ail ran y ddeunawfed ganrif roedd Merthyr yn llawer mwy na Chaerdydd a oedd yn ddim byd ond castell a phentref pysgota ar lannau'r Hafren. Y broblem oedd symud cynnyrch y gweithfeydd haearn bob cam i lawr i'r arfordir i'w allforio neu ei yrru o gwmpas y wlad hon.

Y broblem i Ferthyr oedd dau ddeg pump a hanner milltir gyntaf y daith i gyrraedd y môr. Mae cerbydau ag olwynion angen ffordd weddol wastad ac roedd Cwm Taf a Chwm Cynon felly yn bell ffordd o fod yn ddelfrydol. Bu ceffylau yn cario haearn mewn basgedi ar eu cefnau. Dyma ffordd anodd, beryglus ac araf, ond doedd dim dewis hyd nes dyfodiad y 1790au ac oes y camlesi. Dyma beth yw'r dirgelwch sydd wedi'i orchuddio gan yr A470 - "The Glamorganshire Canal". Traffordd ei oes ac efallai'r newid mewn cludiant a wnaeth fwy o wahaniaeth nag unrhyw ffordd arall erioed. Cododd y gamlas 543 o droedfeddi trwy 51 loc ar hyd 25½ milltir.



*Navigation Hotel wrth bont y gamlas, Abercynon*

Richard Crawshay a Francis Homfray, perchnogion y gweithfeydd haearn, oedd yn ceisio codi arian ar gyfer y fenter, wrth reswm. Erbyn 1790 cafwyd awdurdod i ddechrau ar y gwaith gan y contractwyr Thomas Dadford & Son. Trwy lafur caib, rhaw a whilber cannoedd o "nafis", erbyn 1798 roedd y "Glamorganshire Canal" wedi cyrraedd y môr. Erbyn 1812 roedd cangen o Aberdâr yn ymuno â'r brif gamlas yn Abercynon, a alwyd yn Navigation i ddechrau. Hwn oedd safle swyddfa'r cwmni ond sydd erbyn hyn yn dafarn yn dwyn yr un enw.

Felly, dyma newid byd i Gwm Taf a Chwm Cynon. Ar y gamlas ar hyd ei hoes o dros ganrif a chwarter, ceffylau oedd yn tynnu'r "narrow boats". Gydag amser ciliodd y diwydiant haearn a thyfodd y cynhyrchiad glo. Hyd yn oed gyda dyfodiad y rheilffyrdd roedd digon o waith i'r gamlas hefyd. Wrth i bwysigrwydd glo ddirywio wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf aeth y "Glamorganshire Canal" gyda fe, gan taw cludo nwyddau oedd ei brif waith.



Ailadeiladwyd y bencyn yng Nghilfynydd wedi iddo ddymchwel yn 1896 ond digwyddodd yr un peth yn 1915 a phenderfynwyd cau'r gamlas o Bontypridd i fyny. Gyda glo yn llai pwysig, ceisiwyd cario mwy o nwyddau eraill. Roedd blawd yn llwyth pwysig ar gyfer Pontypridd a datblygodd gweithfeydd "patent fuel" yn ardal Blackweir a Gabalfa tan 20au'r ganrif o'r blaen.

O dipyn i beth ciliodd y defnydd o drafnidiaeth ar y dŵr, â'r diwydiant ar y glannau. Daeth y gamlas i fod yn lle i blant chwarae a physgota ac yn lle i daflu sbwriel.



**Y gamlas dan Gastell Coch a thraphont Walnut Tree**

Suddodd y dŵr i ffwrdd, heb neb i gynnal a chadw'r lociau neu glirio'r llwybrau tynnu. Gyda chulni'r cymoedd roedd yn rhaid gwneud defnydd o'r cwrs ei hunan, a dyma le mae'r A470 yn ymddangos. Rhwng Tongwynlais ac Aberfan mae'r ffordd yn cuddio'r hanes hynod hwn, fwy neu lai, yn gyfan gwbl.. Mae un neu ddau le gwerth eu nodi wrth wibio heibio.

Pan yn ymuno â'r A470 o dan Gastell Coch, wrth deithio i'r gogledd, gwelwn ein harwydd cyntaf. Ar y chwith mae hen wal o friciau coch a oedd yn arfer rhedeg wrth ochr y dŵr. Hyd at Nantgarw rydym fwy neu lai ar ben y gamlas bob cam. Dyma

oedd hanner ffordd i Ferthyr ac yn gartref i lawer o ddynion y cychod. Doedd neb yn byw arnynt gan mor fyr oedd y daith. Dau ddyn oedd eu hangen: un i arwain y ceffyl a'r llall i lywio'r cwch. Dyma ein harwydd nesaf yn agosáu. Wrth adael yr A470 am Nantgarw mae to tŷ ar y chwith a chodiad bach yn yr hewl. Dyma dŷ loc y "treble locks" a beth sydd ar ôl o'r codiad o 33 troedfedd y tair loc.




**Adeiladu'r A470 ar safle'r Treble Locks.**



**Treble Locks a'r tŷ yn edrych tua'r gogledd**

I ddarllenwyr Cwmni mae Crochendy Nantgarw yn lle cyfarwydd iawn. Roedd y gamlas yn ffordd ddelfrydol o gludo cynnyrch y crochendy. Mae hen bont tŷle Nantgarw yn croesi lle arferai'r dŵr fod ar ei ffordd heibio'r Dyffryn Ffrwd, a dros yr hen reilffordd a redai o Gaerffili i Bontypridd cyn cyrraedd Penrhos.

Mae Nantgarw ei hunan wedi diflannu dan ddau gylchdro sy'n ffawd greulon i bentref mor allweddol o bwysig yn ein hanes, ond ewch i weld y lle: mae digonedd o arwyddion y gamlas ar ôl i'w gweld.



**Diwydiant ger y gamlas. Ar y chwith, Patent Fuel Works, Gabalfa. Ar y dde crochendy Nantgarw**

**Mary Jones**



# Hen Dref fy Nhadau a Mamau

## Rhan 2 – Y Teulu Sheppard

(gan Jan Penney, disgynnydd y teulu Sheppard a'r teulu Stradling)

Mae cyfeirlyfrau masnach hanesyddol yn gallu bod yn ffynhonnell wych ar gyfer pob math o wybodaeth ddiddorol. Yn *Directory & Guide to Cardiff, Caerphilly & Llandaff* 1813, yn ogystal â disgrifio'r castell enwog, mae'n dweud bod dwy ffatri yng Nghaerffili oedd yn cynhyrchu siolau gwlanen, ble cedwid peiriannau nyddu i'r rhai oedd yn anfon gwlan i'w nyddu i wneud hosanau gwlan. Roedd tua 90 o dai yn y dref a 300 o drigolion. Roedd tri "*surgeon & apothecary*" ac roedd Miss Brown yn rhedeg yr ysgol elusennol. Roedd wyth o dafarndai y mae rhai o'i henwau'n gyfarwydd i ni heddiw, fel y *Boar's Head Inn*, y *King's Arms* a'r *Wheat Sheaf*, yn ogystal â'r *White Lion*, y *Parrot*, y *Castle Inn*, y *Black Lion* a'r *Red Cow*.



Un o fasnachwyr y dref oedd James Sheppard, canhwylwr (siandler). Dair blynedd yn gynt ym 1810 roedd e wedi priodi Hannah Gray ac roedd ganddynt ferch fach o'r enw Harriet. James oedd plentyn hynaf Thomas Sheppard, "siandler", a enwir mewn cyfeirlyfr masnach arall o 1791, a'i wraig Margaret. Roedd gan James bedair chwaer a phriododd tair ohonynt yn ystod 1813 yn Eglwysilan, Charlotte ym mis Ebrill, Harriet ym mis Mai a Mary Margaret ym mis Tachwedd. Roedd Eleanor (neu Elinor) wedi priodi yn gynt ym 1803 â John Eaton, crydd. (Ym 1834 priododd eu merch, Ann, â gwehydd o'r enw Thomas Stradling, un o feibion William Stradling, y gwneuthurwr gwlanen.) Bedyddiwyd Charlotte, chwaer ifanca' James, yn Eglwysilan ym 1790, ond hi oedd yr unig un. Ganwyd ei chwiorydd a'i brawd yn Llundain yn eglwys St. Bride's, Fleet Street, a rywbryd cyn i Charlotte gael ei bedyddio symudodd y teulu i Gaerffili.

Gŵr Harriet, chwaer James Sheppard, oedd William Waters a enwir yng nghyfeirlyfr masnach *Pigot's* 1835 fel groser a brethynnwr (*draper*). Roedd deuddeg tafarn yn y dref erbyn hynny - roedd enw'r *Black Lion* wedi diflannu ond roedd y *Blue Bell*, y *Clive Arms*, y *Cross Keys*, y *New Inn* a'r *Piccadilly* wedi ymddangos. Russell & Co., Machen, oedd y meistri haearn lleol ac roedd William Jones a William Stradling yn wneuthurwyr gwlanen. Bu farw William Waters ym 1837 yn 54 oed ac o hynny ymlaen Harriet ei weddw a enwir fel groser a brethynnwr. Cafodd William a Harriet wyth o blant - Thomas, Margaret, Mary, Walter, William, Henry (fu farw'n faban), Clement a Harriet. Aeth Thomas a Clement yn seiri celfi a Walter yn saer, tra bod eu chwaer, Harriet, yn gweithio fel gwniadwraig. Aeth William yn brentis i grydd ond bu farw yn ifanc, yn 20 oed, a bu farw ei frawd Clement yn 40 oed. Yn ddiweddarach mae Thomas yn ymddangos fel fferylllydd yng Nghaerffili a bu farw'n ddi-briod ym 1889, yn 75 oed. Yn groes i'r arfer, does dim golwg o unrhyw briodasau na phlant i feibion William a Harriet Waters a does dim gwybodaeth bellach am hanes eu tair merch. Mae William a Harriet Waters a'u meibion (heblaw am Walter a fu farw ym 1891 yn 71 oed), yn ogystal â rhieni Harriet, Thomas a Margaret Sheppard, yn cael eu coffáu ar "fedd cistfaen" (*box neu chest tomb*) sy'n sefyll ym mynwent Martin Sant ar bwys yr eglwys i'r dde o'r brif fynedfa.

Bedyddiwyd Thomas Sheppard, canhwylwr Caerffili, ym 1748 yn eglwys St. Andrew's, Holborn, Llundain, yr hynaf mewn teulu o wyth o blant, a phriododd â Margaret Jones yn yr un eglwys ym 1773. Ond pam symudon nhw gyda'u teulu i Gymru i dref fach fel Caerffili? A Margaret yn Jones, hoffwn feddwl bod ganddynt gysylltiad â'r ardal yn barod. Pwy a wyr? Mae'r hanes wedi hen fynd yn angof, ond mae eu disgynnyddion o gwmpas y lle o hyd.

# Eisteddfod Ddwl y Dysgwyr

Ar Mawrth 1af eleni fe drefnodd Menter Caerffili a Choleg Gwent Eisteddfod ddwl hwylus dros Zoom i ddysgwyr. Braf iawn oedd gweld cymaint wedi cystadlu. Dyma flas ar waith ysgrifenedig y buddugol.

Gyda diolch arbennig i'n beirniaid; Ann Lewis, Gwyneth Davies a Geraint Wilson-Price.



## Y GADAIR - (Mynediad - Canolradd):

Dweudwch rhwybeth am eich daith am iaith  
Mae'n hwyl, mae'n iawn ond dim walk ar y traeth  
Dw i ddim yn cwynfan  
Fy ngeirfa yn hedfan  
Ond pam bod cymaint o eiriau am llaeth?!

gan Olivia Hayward



## Y GADAIR - (Uwch / Hyfedredd):

Roedd fy nhadau'n dathlu yr hen iaith,  
Mewn straeon, caneon, barddoniaeth.  
Dysgais y manylion  
Am 'sgwennu englynion,  
Ond i fi, fel caneri, 'sdim gobaith!

gan Sheelagh Fishlock



## Y GORON - (Mynediad - Canolradd): gan Louise O'Byrne



Credwch chi fyth faint o newid sy'n rhedeg trwy fy ngwythiennau dyfrllyd.

Yn gyntaf, newidiodd fy ffurf, ac mae'n parhau i newid. Gwy dw i, ysbryd Afon Gwy. Dw i'n ferch i gawr oedd yn byw ar Plynlimon. Ro'n i'n byw ar y mynydd hwnnw gyda fy nwy chwaer, Ystwyth a Hafren, tra cysgodd ein tad. Un diwrnod gofynnodd i ni: "Sut byddwch chi'n cyflawni eich tynged?". Penderfynais i ymweld â'r cefnfor, trwy deithio trwy gefn gwlad hardd. Felly deuthum yn Afon Gwy. Nawr dw i'n dechrau fel diferyn bach yn y mynyddoedd, a thyfu'n afon fawr ger Cas-gwent. Dw i'n cwrdd â fy chwaer Hafren yn Aber Hafren.

Yn ail, bob blwyddyn, mae fy lliwiau a golygfeydd hyfryd yn newid gyda'r tymhorau. Dw i'n hefyd yn gartref, lle mae anifeiliaid yn gallu newid trwy'r flwyddyn. Mae llawer o anifeiliaid yn mudo ac yn bridio ynof fi. Mae'r eog yn hoffi byw a silio ynof fi.

Yn drydydd, mae fy swydd wedi newid. Llawer o flynyddoedd yn ôl, ro'n i'n cario nwyddau i masnach. Ro'n i'n cario hopys, glo, mwyn haearn, seidr a phethau eraill. Ro'n i'n hefyd cario llawer o dwristiaid. Mwynhaodd y twristiaid weld adeiladau syfrdanol, natur hardd a ffatrioedd. Nawr mae fy ngwaith yn wahanol. Dw i'n cario canwod, caiacau a chychod rhwyfo, felly mae'r pobl yn gallu gael hwyl. Mae pobl hefyd yn hoffi cerdded ar hyd fy glannau yn eu hamser hamdden.

Mae afonydd bob amser yn newid, ac mae afonydd bob amser yn aros yr un peth. Ond mae rhai o fy newidiadau yn teimlo'n drist. Dw i wedi mynd yn llygredig, ac weithiau wedi gorlifo'r tai ar fy glannau. Dyw e ddim yn fy mai. Gobeithio bydd y bodau dynol yn newid rhai pethau amdany'n eu hunain, fel dw i'n gallu cyflawni fy nhynged.



## Y GORON - (Uwch / Hyfedredd): gan Lyndon Sutton



Chredwch chi byth, ond mae hon yn stori hollol wir!

"PJ & JP". Dyna'r arysgrifen ar garreg derfyn oedd yn sefyll ar y bryn uwchben Afon Ebwy a'r Stoney Bridge enwog. Partridge Jones & John Paton. Nhw oedd perchnogion Gweithfeydd Dur Pontymister. Arfera'r garreg derfyn ddynodi terfyn y tir oedd yn perthyn i'r gweithfeydd. Mae llun du a gwyn a dynnais ohoni yn dal gartref mewn lle diogel. Mae'r garreg a'r gweithfeydd wedi diflannu erbyn hyn.

Yn 1951 ffrwydrodd Ffwrnais H, un o ffwrneisi Gweithfeydd Dur Pontymister. Yn drist iawn, lladdwyd un o'r gweithwyr. Trwy ryw wyrth, ef oedd yr unig un a gollodd ei fywyd. Achoswyd difrod anferth i'r ffwrnais ac i'r adeilad. Darganfuwyd brics crasboeth ar y llechweddau cyfagos ar ochr arall yr afon.

Roedd gyrrwr y peiriant siarsio newydd dywallt bwced fawr o fetel sgrap i mewn i'r ffwrnais, ond yn ddarwybod i bawb, roedd bom neu belen fyw nerthol yn guddiedig ymhlith y sgrap. Gyrrwr y peiriant siarsio yn Ffwrnais H yn ystod y sifft dyngedfennol honno oedd fy nhad. Yn 31 oed, Dad wnaeth ollwng y bom neu'r belen fyw i mewn i'r ffwrnais.

Roedd y gweithwyr yn Ffwrnais H wedi bod wrthi'n gweithio'n galed ers dau o'r gloch. Ffrwydrodd y ffwrnais dipyn ar ol hanner wedi naw gyda'r hwyr. Llai na hanner awr cyn diwedd sifft y prynhawn. Dim ond hanner awr cyn y hwter. Dim ond hanner awr cyn y basai Dad wedi cael mynd adref i'w deulu.

Ty teras bychan yn Trafalgar Street, rhif pump, llai na chan llath oddi wrth brif fynedfa'r gweithfeydd, roedd cartref Nain, Taid, Mam, Dad, fy chwaer hyn a fi. A finnau ar y pryd yn ddim ond 13 mis oed. Anodd iawn i beidio rhyfeddu at pa mor agos deuthum at byth yn gwybod na chofio y Dad gorau yn y byd!

Canys drwy ryw wyrth anferthol, bu iddo oroesi sioc a llosgiadau'r ffrwydrad. Aeth ymlaen i ddathlu ei briodas aur, nyrsio Mam trwy ei Alzheimers ..... a chyrraedd ei wythdegau. Dad gorau a ffrind gorau.






**Oriel Clo**  
Dyma beth o waith Gŵp  
Arlunio Dydd Gwener yn  
ystod y misoedd diwethaf.







## Dinea Fala

### Teisen cneuen goco Beti

Rwy'n byw gogyfer â meddygfa Ystrad Mynach – neu, fel y byddwn yn dweud wrth siarad, “gro’s yr ’ewl i’r syrjyri” – ac yn gweld prysurdeb y lle bob dydd. Felly, ers dechrau’r cyfnod clo cyntaf y llynedd rwy wedi magu’r arfer o wneud teisen i staff y feddygfa brynhawn dydd Gwener fel arwydd o ddiolch am eu gwaith. Dwi ddim yn gwybod amdanoch chi, ond dydd Gwener oedd Diwrnod y Deisen yn y swyddfeydd lle fues i’n gweithio ar ddiwedd fy ngyrfa. Yn sicr, mae croeso brwd i’r “cake lady” yn y feddygfa tua 3.30 brynhawn Gwener.

Ond wrth i’r wythnosau ac yna’r misoedd fynd heibio, mae darganfod ryseitiai newydd wedi datblygu’n her. Nid wyf yn gwneud cacen wahanol bob tro (byddai hynny’n drech na fi!) ond mae’n braf cael amrywiaeth. Ac mae’n braf defnyddio rysait a gawsoch gan ffrind neu berthynas, a’i drafod gyda nhw wedyn, neu hel atgofion wrth wneud y deisen. Ond mae’n dechrau mynd yn annos i ddod o hyd i ryseitiai newydd.

Felly, dyna lle roeddwn i’r wythnos ddiwethaf, yn

chwilio trwy hen lyfrau coginio i geisio dod o hyd i ddarn o bapur gyda’r rysait arno am deisen cneuen goco arbennig a fu’n ffeifryn gen i flynyddoedd yn ôl. Roedd Beti Rhys, cyfnither i’r mam, a fu’n cadw siop lyfrau yng Nghaerdydd am flynyddoedd, yn arfer gwneud y deisen hon ar gyfer partis teulu ’slawer dydd. Cymysgedd ydyw o flawd cnau coco (*dessicated coconut*), ffrwythau sychion, llaeth tewychedig (*condensed*) a cheirios, a’r cyfan wedi ei ledaenu ar haen trwchus o siocled tywyll: ie, melyn ofnadwy, ond blasus tu hwnt hefyd!

A dyma fi’n methu’n lân â dod o hyd i’r darn o bapur. Felly, ar ôl tyrchu a throi tudalennau’r un llyfrau trosodd tro ar ôl tro, dyma fi’n penderfynu troi at y cyfaill ffyddlon yn y cornel – y cyfrifiadur. Ond yr un oedd yr hanes yno – dim sôn am yr union rysait o gwbl. Digon am wneud gwahanol fathau o *macarûns* (dyna’r enw posh ar y deisen hon), a nifer yn cynnig cyngor ar y dull gorau o roi siocled arnyn nhw ... ond wedi eu pobi ar haen o siocled? Na, dim byd.

Nawr rwy’n siwr bod y rysait arbennig hon yn cuddio mewn rhyw gornel o’r we, ac efallai bydd rhywun yn fy ngoleuo ar hynny – ond, am y tro, digon i ddweud i fi ddod o hyd i’r union ddarn o bapur yn y diwedd, wedi ei blygu a’i roi mewn llyfr cwbl annisgwyl. Mae’r rysait yn ysgrifennu glir Beti, yn gymysgedd o Gymraeg a Saesneg, ac wedi ei ysgrifennu dros ddeugain mlynedd yn ôl erbyn hyn. Ond mae’r deisen yn dal mor felys (ac mor flasus) ag erioed!

### Cân i Gymru?

Mae’r pennill sydd yn dod o flaen y ddau bennill yma yn adnabyddus iawn. Pa gân yw hi? (Ateb ar dud 12)

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd  
Pob dyffryn, pob clogwyn, i’r golwg sydd hardd  
Trwy deimlad, gwladgarol mor swynol yw si  
Ei nentydd, afonydd i mi.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,  
Mae heniaith y Cymry mor fyw ag erioed,  
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,  
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

Wedi dod o hyd i’r ateb, beth am ddysgu’r geiriau ar eich cof?

# Colofn y Dysgwyr

Mae mis Ebrill yn dechrau gyda thipyn bach o hwyl ar ddiwrnod Ffŵl Ebrill a gobeithio y bydd yn fis hapus i chi i gyd. Hefyd erbyn hyn, (gobeithio) mae llawer o blant wedi gallu mynd nôl i'r ysgol. Felly, es i chwilio am gerdd ddoniol am yr ysgol.

Mae'r gerdd yma gan Gwion Hallam dipyn bach yn wahanol! Mae wedi ei hysgrifennu fel llythyr, er bod odl yma hefyd. Wrth ddarllen, cofiwch bod y gerdd yn iaith y Gogledd, yn defnyddio FO yn lle FE. Hefyd mae mewn tafodiaith ac efallai bydd rhai geiriau wedi eu hysgrifennu mewn ffordd dipyn bach yn wahanol. Os oes geiriau sy'n edrych yn ddieithr, gallen nhw fod yn eiriau Saesneg wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg fel y teitl SIC NÔT! Mwynhewch ddarllen y nodyn / y gerdd, oddi wrth fam bachgen ysgol.

## Sic Nôt

Annwylest Miss Macklusky, Dw i'n sgwennu ar ran Karl  
gan nad yw o'n 'ryscol heddiw – wel ma'r hogyn eto'n sâl!  
Roedd o'n ddigon symol hefyd i golli ddod – dydd Llun,  
a dw i'n ama a ddaw o fory, tydi o ddim yn fo ei hun.  
Mae'n hogyn cry fel arfar, a dw i'n poeni a deud y gwir  
o'i weld o'n llwyd fel ash trê, a dydy o ddim yn cysgu'n hir.  
Pum munud ar y mwya ac mae'n deffro'n fflyshd i gyd  
cyn troi a throsi'n chwyslyd fel sosej poetha'r byd.  
Ond wir, dw i weithie'n ama' nad ydy o'n sâl go iawn,  
ac nad fedar doctor normal mo'i wella fo yn llawn;  
ei fod o'n sâl o gariad ac yn diodda o symptoma serch –  
wel nid fo sa'r hogyn cyntaf i golli cws, a'i ben, dros ferch!  
Achos neithiwr es 'n daval am sgowt yn 'roria mân,  
'mond i weld a glywn i'r enw oedd yn rhoi ei groen ar dân.  
A wir dw i'n deud gwirionadd – Miss Macklusky coeliwch fi –  
mi glywais i y mab 'cw yn gweiddi'ch enw chi!  
Ac felly ga i ofyn am un gymwynas fach,  
i drio helpu'r mab 'cw rhag diodda mwy mewn strach?  
Beth am wisgo sgert sy'n hirach a llai o flyshyr ar eich boch?  
A beth am beidio marcio'i waith yn rong â swsus coch?  
Neu gwell fyth 'ta, gwisgwch drowsus – rhai bagi, slac fel sach.  
Fasa hynny'n siwr o helpu i gadw'i hormones yn fwy iach.  
Os na, wel fe wnes i drio – ond ydw i'n lot rhy hwyr?  
A Karl bach fi yn hollol *lost* – in *love and lust* yn llwyr.  
Os felly, rhaid fydd trio rhywbeth arall cyn bo hir,  
fel ei anfon at Miss Davies Maths – ma honno'n hyll yn wir!  
Ond am rŵan Miss Macklusky, dw i'n gofyn er mwyn fo –  
chi'n siwr o beidio deud wrth neb? Mewn gobaith. *Miss Monroe.*

*odl : rhyme   tafodiaith : dialect   dieithr : strange   digon symol : ill enough   hogyn : boy  
troi a throsi : toss and turn   serch : passion, love   coeliwch fi : believe me   cymwynas : a favour  
mewn strach : in a mess   swsus : kisses*

Ann Lewis





# Nant Cylla

Hoff Nant Cylla! hyd dy finion  
 Crwydrais pan yn blentyn mwyn:  
 Mal yr ewig dibryderon  
 Yr anghofiwn loes a chwyn.  
 Yn fy mynwes llamai afiaith  
 Fel y brithyll dan dy don;  
 Sŵn dy ddyfroedd ddeffry hiraeth  
 Am fwynderau mebyd llon.

Wedi darllen rhamant hanes,  
 Cofiais dy gyntefig fri.  
 Sawl Rhufeiniwr a mynaches  
 Fu'n ymdrochi yn dy li'?  
 Cenhedlaethau a ddiodaist  
 Heb ddychrynu neb â'th ru,  
 Ac o frigau'th gyll estynaist  
 Gnau i dorri newyn du.



Beth yw'r newid ddaeth i'th hanes?  
 Pam mae'th ddyfroedd heddiw'n ddu?  
 Ai y lofa fel ellylles  
 Sy'n difwyno'th lendid cu?  
 Eto'r un yw salm dy furmur,  
 Bro'r glofeydd a fynni'n lân:  
 Tystio'r wyt mai dyfal lafur  
 Rydd i'th blentyn ddeunydd cân.

Ystrad Mynach

D.J.

*Cyhoeddwyd y delyneg hon yn y Merthyr Express, Mawrth 19eg, 1921, yn y Golofn Gymraeg, a olygwyd gan Sarnicol, sef y llenor T. J. Thomas, 1873 – 1945. Roedd yn dal yn athro gwyddoniaeth yn Ysgol y Bechgyn, Castell Cyfarthfa ar y pryd. Cafodd ei benodi'n brifathro ysgol ramadeg Mynwent y Crynwyr ym 1922. Enillodd Sarnicol gadair Eisteddfod Genedlaethol y Fenni ym 1913, a bu'n agos iawn at y brif wobr sawl gwaith.*

*Doctor Elin Jones yrrodd y gerdd hon atom ac mae hi'n dweud: "Mawr yw fy nioch, gyda llaw, i'r Athro Emeritws Howard Barnes am dynnu fy sylw at y gerdd hon. Mae e'n meddwl taw gwaith fy nhad-cu, David Jones, ydyw, ond rwy'n meddwl bod sawl DJ arall ar gael yn Ystrad Mynach hefyd!"*

**"Cân i Gymru?" ..... Wel, "Hen Wlad fy Nhadau" wrth gwrs!!**

# Colofn Dafydd Islwyn



Un o'r brawddegau gorau a ddarllenais wedi i mi oedi uwchben colofn Doctor Elin Jones 'Beth sy o'i le ar y Triban?' oedd un gan R.E.Jones (1908-1992) yn ei erthygl 'Ple ar ran y limrig', yn Barddas mis Mai 1982. Holodd pam na allwn ni impio elfen Gymreig ar bennill a fenthycwyd o'r Saesneg? Atebodd ei hun: "Yr ateb wrth gwrs yw. Dim rheswm o gwbl cyn belled â'i fod yn gwella'r pennill gwreiddiol"

Mae dau gyn athro o ardal ein papur bro wedi Cymreigio'r mesur. Bu hanesydd y limerig, Tegwyn Jones, Bow Street yn athro am gyfnod yn Ysgol y Graddfa, Ystrad Mynach. Yn 2011 cyhoeddodd 'Sachaid o Limrigau' ac mae ei ragymadrodd yn werth ei ddarllen. Cyn i unrhyw un ddilorni'r mesur fe ddylai ei ddarllen. Mae Tegwyn Jones ei hun wedi gweithio limrigau cofiadwy. Ef ymysg enillwyr cyntaf cystadleuaeth Limerig y Dydd, Ymryson y Beirdd yn y Genedlaethol, cystadleuaeth a sefydlwyd yn Nyffryn Lliw yn 1980 gan T.Llew Jones. Dyma limerig a oedd yn fuddugol yn y Genedlaethol Ynys Môn 1983:

Fel bwled daeth blaenor o'r seler  
Deng eiliad cyn ffrwydrodd y boiler  
Wrth weld capel Seion  
Yn ddim ond adfeilion  
Meddai'r Cristion, "Dy ewyllys a wneler.

Y cyn athro arall sy wedi cael hwyl ar y limerig ydy Moi Parri, a fu'n athro yn Ysgol Ifor Bach, Senghenydd. Mae'r mesur yn addas ar gyfer hiwmor Moi. Yng nghyfrol Tegwyn Jones ceir pedwar limerig ganddo. Ceir pedwar arall ganddo yng nghyfrolau Talwrn y Beirdd. Dyma limerig gan Moi o'r 'Sachaid':

Ces gêm o bêl droed yn Rugby  
A llwythi o aeron yn Bury  
Ond llawer iawn gwell  
wedi siwrne go bell  
Oedd orig yn Bath gyda Siwsi.

Yr enw Bath yn dwyn i go' limerig Hedd Bleddyn, Bro Ddyfi:

Wrth rannu fy math gyda Wini  
Fe faches y plwg gyda 'nhraed i  
Aeth hi gyda'r dŵr  
A nawr mae ei gŵr  
Yn chwilio ym mhobman amdani.

Un o'm hoff limrigau gan Hedd ydy:

Petai stabl Bethlehem yn Lerpwl  
Fe fyddai y doethion mewn trwbwl  
Am na fyddai un camel  
Wrth gerdded drwy'r twnel  
Yn gweld 'run seren o gwbl.

Un arall oedd yn taro deuddeg am ei limrigau ar Dalwrn y Beirdd oedd Edgar Parry Williams, Croesor, aelod o dîm Manion o'r Mynydd. Byddaf yn troi yn aml i gyfrolau'r Talwrn i ddarllen limrigau Edgar. Er enghraifft:

Os collwn ni'r Talwrn 'ma heno  
Tîm Manion sy'n barod i fentro  
Cidnapio'r Meuryn  
A'i adael o'n borcyn  
Am flwyddyn ar ben polyn Nebo.

Roedd limrigau dau aelod o dîm Talwrn y Beirdd, Ffostrasol, yn werth eu clywed hefyd. Doedd Emyr Davies, Penrhiw byth yn methu plesio'r gynulleidfa:

Gofynnodd rhyw Sais bach yn 'smala  
Rôl prynu tŷ Haf yn y Bala  
'Pe byddet ti fi  
Beth ti'n enwi'r tŷ  
Yr ateb a gafodd, 'Amlosgfa'.

Cyd aelod ag Emyr yn nhîm Ffostrasol oedd Dai Rhys Davies, Dai Pendre. Mae'r naw limerig sy ganddo yn y 'Sachaid o Limrigau' i'w darllen yng nghyd â thri arall yn ei gyfrol 'Dwys a Digri'! Yn eu mysg mae "Fy nghi hiliol"

Mae'r Saeson yn rhedeg ar ras  
Waeth Bonso sy'n brathu mor gas;  
A'r wraig sy'n fy annog  
I wneud yn ddwyieithog  
Yr arwydd Cymraeg sydd tu fas.

Cardi arall oedd yn cael hwyl ar weithio limrigau yn y Talwrn oedd Arwel Jones Tan y Groes:

Aeth beirdd Tan y Groes a Ffostrasol  
Fel uned i ornest dalyrnol,  
Ac wedi peth dadlau  
Fe unwyd eu henwau  
A'u galw yn dîm Tanyrasol.

I lawer, prif limrigwr Talwrn y Beirdd y dyddiau hyn ydy Gareth Jô's, Giatgoch, aelod o dîm Tir Mawr - hogiau Llŷn. Yn 'Sachiad o Limrigau' ceir tri deg pump limerig! Yn eu mysgr mae dau i gyfarfodydd Merched y Wawr.

Mae Merched y Wawr yn difaru  
Na nadon nhw Nel gael ei dyrnu  
Gan Madge Dybliw Ei  
Efo Cadw mi-Gei  
Ond doedden nhw ddim eisiau busnesu.

Mae Merched y Wawr yn difaru  
Cael noson atgofion am garu:  
Bu Efa Ty'n Pant  
Yn rhestri'r holl blant  
A dechrau esbonio pwy ddaru.

Mae Merched y Wawr i'w canmol am fod yn Gymreig eu hagwedd!

## Pigiad

Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad daro fi bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod 'Jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr a fydd yn cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael injecshyn achos roedd hyn yn llawer cyn i rywun benderfynu byddai y gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ofnadwy erbyn eich tro chi. Chi bobl ifanc! Does gennych chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod dioddef!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonaau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd roedd y ffordd o weithio yn reit slic.

Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan ac yn cadarnhau fy enw a chyfeiriad ac ati ac wedyn yn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio pob tro!

*Rob Evans*

## PWYLLGOR a SWYDDOGION

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas [e.thomas119@btinternet.com](mailto:e.thomas119@btinternet.com)

**Golygydd:** Ben Jones [benamarycwmni@yahoo.com](mailto:benamarycwmni@yahoo.com) 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough [faircloughmarian@gmail.com](mailto:faircloughmarian@gmail.com) 02920885151

**Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:**  Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** Menter Iaith [SirCaerffili.cymru/](http://SirCaerffili.cymru/) 

**e-bost:** [Golygydd@papurcwmni.cymru](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru) [benamarycwmni@yahoo.com](mailto:benamarycwmni@yahoo.com)



*Ariennir yn  
rhannol gan  
Lywodraeth  
Cymru*





# Y Trên

Eisteddodd Graham ar y fainc yr ochr draw i'r sied. Eisteddodd arni i aros. Roedd hi'n chwarter i ddeg ac wedi hen dywyllu ar noson fwyn ddiwedd Awst. Roedd y penderfyniad wedi ei wneud.

Y sied oedd ei hoff fangre. Mae hi'n fwy o gaban haf nag o sied ac roedd e wedi dechrau treulio fwy-fwy o amser ynddi yn y misoedd diwethaf. Mae'r sied gryn bellter o'r tŷ i lawr ar hyd rhimyn hir o ardd sy tu cefn i'r tŷ teras sylweddol, eitha crand a adeiladwyd yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf ar un o'r ffyrdd allan o'r dref. Digon o le i'w fam yng nghyfraith; musgrell ei chorff ond yn ddigon miniog ei thafod o hyd. Hi oedd y prif reswm iddyn nhw symud yno ryw bum mlynedd ynghynt. 'Angen mwy o le,' oedd sylw Edith ei wraig. Cytunodd Graham yn ufudd. Fu'r berthynas rhyngddo ef a'i fam yng nghyfraith ddim beth fasech chi'n alw'n fynwesol ac roedd y 'digon o le' yn swnio'n syniad go dda, os oedd rhaid i'r fenyw ddod i fyw atyn nhw wedi marwolaeth tad Edith. Roedd y sied yn estyniad pellach ar y 'mwy o le'. Y 'clinshar' ar y dewis o dŷ i Graham oedd y ffaith bod hen reilffordd yn rhedeg trwy waelod yr ardd, ac roedd y pant, llér arferai trenau dramwyo, yn glir i'w weld o hyd, er dan fieri ac ysgall mall, ond doi yr estyniad hwn i'w berchnogaeth fel rhan ddiddorol o'r contract.

I egluro: manylwr fu Graham erioed; cynneddf a ddaeth o ddefnydd iddo yn gweithio i swyddfa'r dreth, un a hyrwyddodd ei ddyrchafu yn y weinyddiaeth er ei bersonoliaeth ddiymhongar. Roedd ei drylwyrdd yn amhrisiadwy. Cafodd bensiwn digon parchus. Wedi ymddeol, darganfu nad oedd ganddo unrhywbeth i fanylu arno bellach, ac yn sgîl y cyfwng yma yn ei fywyd trodd o ddifri at ddiddordeb a fu ganddo ers ei ieuenctid, sef hanes lleol, ac yn benodol hanes rheilffyrdd lleol. Tyfodd y diddordeb yn dipyn o obsesiwn ganddo. Ymunodd â'r gymdeithas hanes yn y dref a gyda'r 'ramblers' oedd yn amlach na pheidio yn dewis hen reilffyrdd i'w dilyn gan fod sawl un yn llai na sionc, a rheilffyrdd yn dueddol o fod yn eitha gwastad. Roedd bod yn berchen ar ran o hen lein yn dipyn o wefr felly.

Daeth y sied yn gilfan lle cadwai ei lyfrau a'i fapiau yn destlus allan o ffordd Edith. Roedd hen gatalogau taith ac amserlenni wedi eu gosod yn drefnus mewn droriau a hen luniau du a gwyn di-rif a phosteri dros y waliau. Roedd hen lamp trên o oes Fictoria ar ei ddesg ac arwydd ar gyfer y 'Gents', a ddarganfu mewn sgîp, yn grair gwerthfawr uwchben y ffenest.

Eginodd y diddordeb hwn pan oedd yn fachgen yn casglu rhifau ac enwau trenau. Roedd enwau fel Howard of Effingham, Bihara and Orissa a Zanzibar ar y platiau pres ar ochrau'r trenau stêm swnllyd, sglein a ddoi trwy orsaf drenau bro ei febyd wedi ei hudo. Gwyliai nhw yn ymadael wedyn ar hyd y trac unionsyth i'r anfeidredd pell. Roedd y cewri haearn hyn yn cludo rhamant pur. Dychwelodd rhamant ei fachgendod wedi iddo ymddeol. Doedd Edith ddim mor frwdfrydig, er iddi hi ddioddef sawl taith drên i leoliadau anghysbell gyda'i gyd-frwdfrydigion. O leiaf gallai siopa wedi cyrraedd. Doedd hi ddim yn rhy hapus chwaith pan benderfynodd Graham fuddsoddi mewn cyfranddaliadau mewn trên stêm ar lein treftadaeth. 'Mil o bunnau am lwyth o sgrap,' oedd ei sylw hi, ond roedd e wedi cytuno i symud tŷ o leia. Doi ei gŵr adref yn olew a pharddu i gyd wedi treulio dydd Sadwrn yng Ngorllewin Cymru yn atgyweirio rhyw ran neu'i gilydd o'r trên, ond roedd yn wên i gyd hefyd ac roedd tân yn ei lygaid.

Doedd y lein ar waelod gardd Graham ddim yn un egsotig o fath yn byd, yn cludo teithwyr i bedwar ban. Lein oedd hi i gario glo o'r pwll ryw bum milltir i ffwrdd i lawr yr inclein serth i waelod y cwm. Roedd rhai trenau yn cario pobol hefyd a dros y blynnyddoedd datblygodd hi'n lein go brysur. Ond gyda dirywiad y diwydiant glo wedi'r ail ryfel byd, daeth dirywiad yn ei phoblogrwydd hi hefyd, ac fe'i caewyd ryw dipyn cyn i Mr Beeching ddod â'i fwyell a chau llawer o reilffyrdd Prydain yn y chwedegau. Damwain oedd achos y penderfyniad; damwain a ddigwyddodd un noson pan aeth trên yn bendramwnwgl i hafn ar waelod yr inclein wedi i'r brêc fethu. Lladdwyd y gyrrwr a'r taniwr. Doedd dim llawer o deithwyr ar y trên y noson honno ac wrth lwc ni laddwyd neb arall. Yn sgîl y digwyddiad, barnwyd na fyddai'n economaidd atgyweirio'r difrod a wnaed i'r lein.

Darganfu Graham mai Bill Matthews a Harold Evans oedd ar y ffwtplât y noson dyngedfennol honno. Roedd erthygl helaeth a lluniau go ddramatig yn yr *Echo* y diwrnod wedyn. Un o'r hen '*Hall Class*' oedd yr injan. Canfu Graham yr hen rifyn yn y llyfrgell. Yn ôl yr erthygl, roedd llaw Bill Matthews yn dal yn cydio'n dynn yn y brêc pan ddaethpwyd o hyd i'w gorff yn y llanast. Olew wedi gollwng oedd achos y ddamwain yn ôl yr archwiliad, meddai erthygl arall. Darganfu hefyd hen amserlen *British Rail* a restrai'r union daith oedd i gyrraedd Caerdydd am chwarter i un ar ddeg y noson honno. Roedd ei chwilyfryddedd a'i ddychymyg wedi eu tanio.

Roedd pridd a thyfiant degawdau dros y lein, ond wedi i'r tywydd wella ddechrau'r flwyddyn aeth Graham ati i glirio'r mwrlwlch o ddrain. Dechreuodd balu yn y pridd i weld os oedd olion pellach o'r rheiliau. Llamodd ei galon pan darodd ei raw ar rywbeth a swniai'n hynod o debyg i fetel. Roedd ar ben ei ddigon pan symudodd fwy o'r pridd a darganfod yr hen reilen yn y baw, braidd yn rhydlyd, a'r slippers pren yn gyfan. Gweithiodd yn ddygn trwy weddill y gwanwyn i ddadorchuddio a glanhau'r rheiliau i gyd; ei reilffordd bersonol ef ei hun, er wedi ei gau i mewn rhwng y mieri yn ngerddi ei gymdogion. Roedd hi'n ddefodol wedyn i unrhyw ymwelydd â'r tŷ ddiodeff y 'guided tour' o'r lleoliad cysegredig.

Symudodd y fainc o du blaen y sied i'r tu ôl a wynebai'r rheilffordd, a'i ddileit oedd eistedd arni ar hwyrddydd haf gyda gwydraid o gwrw â'i ddychymyg yn drên a gwyllo'r haul yn machlud rhwng y coed oedd yn fframio'r olygfa gyfan. Byddai ystlumod yn dod yn gwmni iddo. Gallai glywed traffig y dref yn ddwndwr tawel a sŵn y trenau modern yn gadael i fynd trwy'r twnnel o'r orsaf, ryw hanner milltir i ffwrdd. Gwyddai amser pob un a doi sŵn corn yn eglur dros yr awyr cyn i bob trên gychwyn ar ei daith i'r cyfeiriad arall, gyda'r sŵn yn edwino wrth ymbellhau.

Deg o'r gloch yn union oedd hi pan glywodd y chwib am y tro cyntaf, a sŵn trên stêm yn atgyfnerthu i dynnu ei lwyth. Clywodd hefyd hercian y cerbydau ar y cledrau. Roedd y sŵn yn dynesu y tro hwn; pwffian sydyn i ddechrau wrth i'r trên gyflymu a phwffian mwy rhythmig wedyn wedi torri *inertia*'r llwyth. Ysgwydodd Graham ei ben yn anghrediniol o beth a glywai. Edwinodd y sŵn yn sydyn a bu tawelwch. Ni welodd ddim.

Cododd a brasgamu i'r tŷ a'i wydryn yn ei law. 'Glywest ti hwnna?' holodd i Edith oedd yn ei choban ar ei ffordd i'r gwely.

'Clywed beth?' holodd hi.

'Y chwiban yna a sŵn trên stêm yn dod, y ffordd yma.'

'Beth oedd 'da ti yn y glass 'na?' oedd ymateb Edith a throi i fynd i fyny'r grisiau.

Roedd ymennydd Graham yn berwi. 'Siawns na chlywodd hi siŵr. Roedd o'n ddigon clir,' meddylodd. Rhoddodd ei ben allan o'r drws i wrando eto ond roedd y noson yn dawel. Aeth yntau am ei wely yn pendroni. Bu'n troi a throsi am hydoedd yn amau ei grebwyll, tan iddo gael pwnied gadarn gan Edith a llwyddodd i gysgu wedyn.

Eisteddodd yn yr un lle y noson wedyn gyda'i wydryn yn ei law fel y noson gynt. Roedd ffenestri'r drysau Ffrengig yn llydan agored ar noson glos fel y gallai Edith glywed petasai sŵn. Am ddeg o'r gloch yn union clywodd y chwiban a sŵn y trên yn cychwyn fel o'r blaen gyda sŵn yr olwynion trymion yn dynesu, ond heno roedden nhw'n dal i ddod, a dod, a dod, tan fod sŵn y trên yn pasio yn union o'i flaen ar ei gledrau personol ef ei hun, ond doedd dim i'w weld: dim golau o'r cab na'r cerbydau; dim mwg na stêm na'r arogl hudolus yna a ddoi o'r hen drenau. Eisteddodd yno'n gegrwth tan i'r sŵn edwino i gyfeiriad yr inclein.

Cododd a rhedeg at y tŷ a chamu trwy'r drws Ffrengig. 'Mi glywest ti hwnna, siawns,' meddai wrth Edith oedd yn eistedd yn ei choban â'i bryd ar y teledu a ddim yn rhy blês o gael ei gŵr yn tarfu ar ei mwynhad.

'Ti ddim wedi clywed y trên yna eto, wyt ti?' holodd hi.

'Ydw. Mi ddaeth o'r holl ffordd trwy'r ardd gefn y tro 'ma. Rhaid bod ti wedi clywed.'

Ysgwydodd Edith ei phen ac edrych yn ddrwgdybus iawn ar ei gŵr. 'Arghh!' ebychodd Graham a throi i gyfeiriad y gegin ac Edith yn edrych yn syn ar ei ôl. 'Na, na, na,' clywodd ei gŵr yn grwnnach. 'Mae hyn yn sili. Yn hollol, hollol sili!'

Ydy, yn hollol sili,' gwaeddodd hi. 'Mae'r blymin trêns hyn yn obsesiwn 'da ti. Callia.'

Fu dim mwy o drafodaeth am y peth y noson honno, ond roedd Edith yn ddrwgdybus iawn.

Roedd Mr Llewelyn drws nesaf yn yr ardd y bore wedyn ynocio'r gwrych. Ymlwybrodd Graham ato. Roedd perthynas ddigon cyfeillgar rhyngddo ef a'r hen golier wedi datblygu dros y blynyddoedd er bod ambell gam gwag cyfathrebu'n digwydd rhwng acen ogleddol Graham a Gwenhwyseg yr hen ddyn.

'Mi fydd rhaid i mi wneud yr ochr yma wedyn,' meddai Graham y eitha di-hid.

'Jest cymoni fachan, jest cymoni,' atebodd yr hen ddyn a dal ati i docio.

'Dwedwch i mi,' meddai Graham, 'glywsoch chi ddim byd anghyffredin yn yr ardd neithiwr?'

'F'i? Yn yr ardd? Na, sai'n meddwl 'ny. Pryd?'

'Tua deg o'r gloch.'

'Sŵn beth?'

Trên.'

‘O’n i yn y gwely. Methu cysgu. Ffenestri ar led. Rhy dwym, rhy dwym o beth yffach. Wy’n gallu clywed sŵn y trêns yn y stesion bob nos ond ddim byd yn yr ardd. So trêns yn dod trwy’r ardd yn aml dyddie hyn gw boi,’ ychwanegodd â gwên gellweirus dros y gwrych. ‘Fi’n eu cofio nhw’n iawn amser maith yn ôl, ond does dim byd nawr, trysta fi.’

‘Wn i,’ meddai Graham, yn teimlo braidd yn dwp am ofyn.

‘Imajineshon yn beth mawr fachan. Mae’r stwff trêns yn y sied ’na a’r lein ’na tu ôl fan ’na sy ’da ti yn chwarae triciau arnat ti,’ meddai’r hen ddyn, ‘ond wyddost ti ddim,’ ychwanegodd gyda gwên ddrygionus a chodi ei eiliau.

‘Ia, wir. Ia, wir,’ meddai Graham. ‘Â i at ochr yma’r gwrych fory.’

‘S’dim brys. S’dim brys,’ meddai’r hen ŵr.

Ciliodd Graham a mynd at ei fainc i bendroni. Rhoddodd ei law ar ei dalcen a chau ei lygaid. Roedd golau dydd yn dod â rheswm i bopeth. Rhaid mai ‘imajineshon’ oedd y cyfan.

Roedd y dynfa yn ormod, ac am bum munud i ddeg roedd Graham yn eistedd ar ei fainc yn aros. Roedd yn gobeithio na chlywai ddim a gallai gysgu’n dawel. Roedd Edith wedi troi ei llygaid uchod wrth ei weld yn ymlwybro i lawr yr ardd ac aeth am ei gwely i ddarllen.

Am ddeg o’r gloch yn union, clywodd sŵn y chwiban a phwffian sydyn y peiriant a’r rhythm yn gostegu wedyn fel o’r blaen. Caeodd Graham ei lygaid i geisio cau’r twrw o’i ben ond daeth y trêns a’i ddwndwr yn agosach ac agosach ac wedyn heibio iddo ac yntau a’i ben yn ei ddwylo. ‘Na, na, na!’ gruddfanodd yn dawel. Clywodd y chwiban eto fel yr aeth i gyfeiriad yr inclein yn y pellter. Doedd dim pwynt sôn am hyn wrth neb, neb o gwbl, ond roedd yr ateb yn glir; rhaid oedd gwaredu’r ddrychiolaeth hon o’i ben, rywsut.

Y diwrnod wedyn roedd Edith wedi sylwi bod golwg wahanol ar wep ei gŵr wrth gario ei brecwast i’w mam yn y fflat ar yr ail lawr. Prin fu’r drafodaeth rhyngddynt nhw yn ystod y dydd. Roedd ei feddwl ymhell. Aeth Graham ati i docio’r gwrych yn ôl ei addewid i Mr Llewelyn. Torrodd y lawnt hefyd.

Digon tawel oedd hi dros swper hefyd gyda’r fam yn bresennol. Prin fyddai cyfraniadau Graham i drafodaeth y bwrdd bwyd beth bynnag.

‘Yn mynd i wrando am y trêns heno?’ holodd Edith.

‘Yn hwyrach, hwyrach,’ oedd unig ymateb Graham a rhoi darn o frocoli yn ei geg.

Felly, ar y fainc roedd Graham yn aros am chwarter i ddeg. Gallai glywed adenydd yr ystlumod yn yr awyr dawel fwyn uwch ei ben a chymrodd ddracht o’r gwydraid helaeth o wisgi a ddaeth gydag ef heno. Roedd hi fel y fagddu dan y coed ond roedd golau melyn strydoedd y dref yn gefndir pŵl. Edrychodd ar ei watsh â’i bysedd tryloyw ac aros i’r eiliadau a’r munudau dreiglo heibio fesul un.

Canodd y chwiban am ddeg o’r gloch yn union. Gorffennodd Graham weddillion ei wydraid a phlannu’r gwydr ar y fainc wrth ei ochr. Rhaid oedd profi mai ffantasi oedd y cyfan a chamodd i lawr i’r hafn a sefyll a’i goesau ar led ar y cledrau i aros. Gallai glywed y trêns yn agosáu. Roedd cryndod yn y rheiliau dan ei draed. Cododd ei freichiau fry.

Cafodd Edith dipyn o sioc pan nad oedd Graham wrth ei hochr yn y gwely y bore wedyn. Hi fyddai fel arfer yn codi gyntaf gan mai hi fyddai’r cyntaf i glwydo bob nos. Galwodd amdano, ond doedd dim ateb. Gwelodd fod y drws cefn yn llydan agored pan aeth i lawr i’r gegin a chamodd i haul y bore’n betrus. Cerddodd yn araf i lawr yr ardd. Darganfu wydraid Graham ar y fainc cyn camu at ymyl yr hafn a darganfod ei gŵr ar ei gefn yn welw rhwng y rheiliau gyda’r olwg fwyaf dychrynlyd wedi ei serio ar ei wyneb. Daeth sgrech hir o safn Edith.

\*\*\*\*\*

Trawiad ar y galon oedd achos y farwolaeth yn ôl adroddiad y post mortem. Nid oedd unrhyw arwydd o anaf ar ei gorff ond roedd y geiriau ‘*death due to unspecified trauma*’ yn hynod amwys. Beth fu’n benbleth i’r pathologydd oedd y rhimyn o olew tenau oedd yn llinell syth o’i goryn i’w sawdl.

Soniodd Mr Llewelyn yr un gair am eu trafodaeth y diwrnod cynt.

**Gareth Wyn Williams**